

Cwrs Plant yn y Bala

Bydd Penwythnos Plant yr Ofalaeth yng Ngholeg y Bala eleni o nos Wener hyd ddydd Sul, Mai 15–17. Mae'r cwrs hwn ar gyfer plant 8 i 12 oed ac mae croeso cynnes i'ch plentyn ddod iddo.

Mae'n gyfle arbennig i'r plant ddysgu am Iesu Grist trwy weithgareddau o bob math, yn cynnwys gemau a gwaith crefft a chanu a stori.

Os am ragor o fanylion cysylltwch â'r Gweinidog. Ond gwell brysio!

Cyhoeddiadau

YR OFALAETH

Dydd Mercher, Mai 13: 'Dechreuadau' - yr ail sesiwn, ym Methlehem Talybont am 2.00 o'r gloch.

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Mai 13: Bydd Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 17: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Mai 12: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Nos Fercher, Mai 13: Bydd Dosbarth

Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Mai 15: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 17: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Huw Pritchard. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mai 17: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Mai 17: Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Bangor a Bethesda yng nghapel Carmel, Llanllechid am 10.30 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Llun, Mai 11: Trip y 'Dosbarth Gwau' i Abakhan, Llannerch y Môr.

Nos Wener, Mai 15: Cynhelir 'Dwylo Prysur' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 17: Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Bangor a Bethesda yng nghapel Carmel, Llanllechid am 10.30 o'r gloch.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Mai 15: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Mai 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Mai 17

10.00 a.m. - Y Parchg Huw Pritchard

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard

Mai 24

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

5.00 p.m. - Dim Oedfa

Y mis nesaf - Deiniolen

Mai 10

10.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Mr John Roberts

Mai 17

10.00 a.m. - Y Gweinidog

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mai 24

10.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 637: Dydd Sul, 10 Mai, 2015

Loco a Loko

Ers pum mlynedd mae pobl gwledydd Prydain wedi cwyno am y toriadau i wasanaethau cyhoeddus, y toriadau i fudd-daliadau, y 'dreth ystafell wely', prinder arian i'r Gwasanaeth Iechyd a'r bygythiad i breifateiddio mwy a mwy o'r Gwasanaeth hwnnw, y manteision treth i'r cyfoethog, dibyniaeth pobl ar fanciau bwyd, a sawl peth arall a ddeilliodd o bolisiau Llywodraeth San Steffan.

Ddydd Iau diwethaf, roedd cyfle i wneud rhywbeth ynglŷn â'r peth. A'r hyn a wnaed oedd gwobrwyo'r Prif Weinidog a'i blaid â phum mlynedd arall i weithredu ymhellach y polisiau a achosodd y fath gynni a dioddefaint. Ys dywed y Sbaeneg, 'loco'.

Amser a ddengys beth all gweddill yr aelodau seneddol a etholwyd ddydd Iau ei wneud i leddfu rhywfaint ar frathiad y toriadau mileinig sy'n siwr o ddod i'r gwasanaethau sydd mor bwysig i les ein cymunedau. Mae'n amlwg fod canlyniad annisgwyl yr Etholiad wedi gwneud i lawer o bobl ofni'r hyn a ddaw, ac fe orymdeithiodd miloedd o bobl ar strydoedd Llundain ddoe er mwyn tynnu sylw David Cameron a'i lywodraeth newydd at eu pryderon ynghylch y toriadau arfaethedig.

Roedd y brotest hon yn fynegiant o ddyhead miliynau o bobl am ddiwedd i'r toriadau sydd wedi achosi cymaint o boen dros y blynyddoedd diwethaf. Un o ddirgelion arhosol Etholiad 2015

fydd y ffaith na roddodd mwy fyth o bobl fynegiant i'r dyhead hwnnw trwy eu pleidlais.

Cwestiwn Iesu i'r dyn claf wrth Bwll Bethesda oedd, 'A wyt ti'n dymuno cael dy wella?' Gallech feddwl nad oedd angen gofyn hynny gan fod y dyn yn wael ers deunaw mlynedd ar hugain. Ond roedd Iesu am ei glywed yn dweud ei fod eisiau cael ei wella. Yn yr un modd, mae am ein clywed ninnau'n cydnabod ein hangen am ei gariad a'i faddeuant.

Ai dangos a wnaeth yr Etholiad nad yw pobl y gwledydd hyn yn dymuno gweld eu bywydau hwy, a bywydau eu cymdogion a'u cymunedau, yn cael eu gwella a'u harbed rhag effeithiau'r toriadau llym? Trueni o'r mwyaf os bydd rhaid aros am bum mlynedd arall am gyfle i ddweud ein bod yn dymuno cael ein gwella.

Mae'r wythnos hon, fodd bynnag, yn rhoi cyfle i ni wneud rhywbeth i helpu pobl a chymunedau sy'n dyheu am well byd. Mae'n Wythnos Cymorth Cristnogol unwaith eto, a ninnau'n cael cyfle i gyfrannu at waith yr elusen hon sy'n ceisio gwella bywydau pobl mewn gwahanol rannau o'r byd. Mae geiriau un wraig o Ethiopia, Loko, yn dangos ei dyhead am fod yn well: 'Byddaf yn ... gofyn i Dduw newid fy mywyd a'm harwain o'r sefyllfa hon'. Os medrwn gyfrannu eleni, gwnawn hynny'n llawen o gofio y byddwn yn helpu pobl sy'n dyheu am fod yn well.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch. Gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan Mr John Roberts, Llanfairpwll.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Bydd Oedfa Cymorth Cristnogol yn Eglwys Glanogwen am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Canon Idris Thomas.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd. Gweddiwn am gynhaliadaeth ac adferiad.

Wythnos Cymorth Cristnogol Mai 10-16

Mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn cychwyn heddiw, a daw i ben ddydd Sadwrn nesaf.

Bydd casglyddion yn dod o amgylch yr ardal, a gobeithio'n fawr y ceir ymateb parod eleni eto.

Diolch yn fawr iawn i bawb a fydd yn casglu o ddrws i ddrws neu'n gwneud unrhyw beth arall dros yr achos hwn yr wythnos hon. Gobeithio cewch chi fwynhad a bendith yn y gwaith, er ei fod yn medru bod yn anodd ar adegau.

Yn ystod yr wythnos hon o gasglu bob blwyddyn mae Cymorth Cristnogol yn rhoi sylw i bobl a chymunedau mewn rhan arbennig o'r byd. Y tro hwn, mae peth o'r sylw yn cael ei roi i Ethiopia, ac i wraig o'r enw Loko. Nid yw hynny'n golygu y bydd yr holl arian a gesglir yr wythnos hon yn cael ei ddefnyddio yn Ethiopia. Bydd casgliadau'r wythnos hon yn cael eu defnyddio i helpu gwaith Cymorth Cristnogol yn gyffredinol, yn y gwahanol wledydd y mae'r elusen yn gweithio ynddynt. Ond mae stori Loko yn cael ei hadrodd er mwyn i bobl gael un enghraifft o'r math o gymorth y mae'r arian hwn yn ei roi, a'r bobl sy'n derbyn y cymorth hwnnw.

Mae Loko yn byw yn byw mewn ardal ddiarffordd yn Ethiopia. Bedair gwaith yr wythnos, mae'n cerdded wyth milltir i hel coed tân. Dyna un o'r pethau y mae'n gorfod ei wneud er mwyn cynnal ei theulu. Mae'n gas ganddi feddwl am y siwrmai boenus, galed honno; ond meddai, 'Os na fedraf fi hel coed tân, bydd fy mhlant yn marw. Byddaf yn gweddio wrth gerdded ac yn gofyn i Dduw newid fy mywyd a'm harwain o'r sefyllfa hon.'

Mae Cymorth Cristnogol yn awyddus i helpu pobl fel Loko i gael gwell bywyd. Gallai cyn lleied â £5 o'r arian a gesglir yr wythnos hon fod yn fenthyciad i Loko i'w galluogi i gychwyn eu busnes ei hun o brynu a gwerthu te a choffi. Byddai hynny'n golygu na fyddai rhaid iddi ddal ati i deithio i hel coed tân. Byddai ganddi hefyd fwy o amser i ofalu am ei theulu.

Os cewch un o'r amlenni coch trwy'r drws, gobeithio gellwch roi arian ynddi at waith Cymorth Cristnogol. Os na chewch chi amlen erbyn diwedd yr wythnos, mae croeso i chi gysylltu â'r Gweinidog os byddwch am gyfrannu.

Angladd

Cynhelir gwasanaeth angladd Mrs Janet Mackay, 4 Stryd Ceunant, Llanberis yn Capel Coch am 10.45 o'r gloch (ac yn Amlogfa Bangor am 12.00 o'r gloch), ddydd Iau, Mai 14.

Angladd

Bu farw Mr Roy Griffith, 6 Stryd Turner, Llanberis yng Nghartref Ceris Newydd, Treborth ddydd Sul diwethaf, Mai 3. Cydymdeimlwn â'i briod, Liz, a'r plant, Darryl, Haeley a Tracey, a'r teulu cyfan. Cynhaliwyd oedfa angladdol yn Capel Coch ddydd Gwener dan arweiniad y Gweinidog. Mrs Bethan Holding oedd yr organydd.

Bore Coffi

Cynhelir Bore Coffi er budd Cymorth Cristnogol yn neuadd Ogwen, Bethesda rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch fore Sadwrn nesaf, Mai 9.

Taith Clwb Gwau

Mae Clwb Gwau Carmel Llanllechid yn Trefnu trip i Abakhan, Llannerch y Môr ddydd Llun, Mai 11. Gobeithio bydd y tywydd yn eithaf ar gyfer y daith.

'Dechreuadau'

Cynhaliwyd sesiwn cyntaf 'Dechreuadau' yn Nhalybont ddydd Mercher diwethaf, a chafwyd cyfarfod da iawn gydag amrywiaeth o bethau i ysgogi trafodaeth.

Pwyllgor Bugeiliol Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon sydd wedi trefnu'r gyfres hon dan arweiniad y Parchg Casi Jones, Clynnog, sydd wedi cychwyn gweithio fel Swyddog Cynnal ac Adnoddau Undeb yr Annibynwyr yn y Gogledd.

Bydd 4 sesiwn i drafod 'Pwy ydyn ni fel eglwysi' a 'Lle rydyn ni'n mynd heddiw'. Gwahoddir yr eglwysi i anfon 2 neu 3 aelod i'r cyfarfodydd hyn. Bydd pob sesiwn yn awr o hyd ac yn cynnwys trafod, myfyrio ar ddarnau o'r Beibl, a meddwl am bethau ymarferol y gellir gweithredu arnynt.

Bwriedir i'r aelodau hyn wedyn adrodd am y cyfarfodydd wrth aelodau'r eglwys gan rannu'r syniadau a'r awgrymiadau gyda hwy dan arweiniad y Gweinidog.

Cynhelir y sesiynau hyn ar brynhawn Mercher, rhwng 2.00 a 3.00 o'r goch., ar y dyddiadau a ganlyn:
Mai 6, 13, 20; a Mai 27 neu Mehefin 3

Bydd yr ail gyfarfod yn festri Bethlehem Talybont am 2.00 o'r gloch, ddydd Mercher, Mai 13.

Fel dilyniant, bwriedir i Casi ymweld â'r eglwysi unigol ar gyfer dau sesiwn arall, sef Sesiwn 5: Edrych allan i'r gymuned a Sesiwn 6: Creu cynllun i'r eglwys ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

Cymanfa Ysgolion Sul

Fore Sul nesaf, Mai 17, bydd Cymanfa Ysgolion Sul Annibynwyr Dosbarth Bangor a Bethesda yng nghapel Carmel, Llanllechid am 10.30 o'r gloch.